PAPUR WYTHNOSOL YR ANNIBYNWYR CYMRAEG

# Y TYST

Sefydlwyd 1867 Cyfrol 158 Rhif 34/35 Awst 21/28, 2025 50c.

## Newyddion haf Hope-Siloh Pontarddulais

### Trip yr ysgol Sul

Brynhawn Sadwrn cyntaf Gorffennaf, roedd plant ysgol Sul Hope-Siloh wedi bwriadu mynd i barc gwledig Pen-bre. Ond daeth y gwynt a'r glaw! Newidiwyd y trefniadau, a daeth y plant a'r ieuenctid ynghyd yng nghanolfan Xcel yng Nghaerfyrddin. Cafwyd prynhawn llawn hwyl a sbri wrth fowlio deg, chwarae gemau a dringo drwy'r ardal chwarae meddal, cyn mwynhau hufen iâ blasus. Dathliad bendigedig i orffen y flwyddyn!





### Ymweliad yr ysgol Sul â Tesco

Yn ystod ysgol Sul olaf y tymor, aeth plant Hope-Siloh i Tesco i brynu nwyddau i'r banc bwyd lleol, gan ddysgu am bwysigrwydd helpu eraill o fewn ein cymdeithas.

### Prosiect Denman

Aeth plant ysgol Sul Hope-Siloh ati'n frwdfrydig eleni eto i gwblhau Prosiect Denman a drefnir gan Undeb yr Annibynwyr. 'Gwasanaethu Iesu' oedd y thema eleni a chrëwyd fideo gyda'r bobl ifanc yn dangos sut maen nhw:

- Yn gyntaf, yn ceisio dilyn yr hyn a ddywedodd Iesu wrthym am wneud
- Yn ail, yn gweithredu a dangos cariad Duw mewn ffyrdd ymarferol
- Ac yn drydydd, yn estyn allan ac annog eraill i ddilyn Iesu.

Beth am wylio ein fideo wrth sganio'r cod yma ar ddyfais ddigidol?





### Parti pitsa'r clwb ieuenctid

Daeth blwyddyn Clwb Plant a Chlwb Ieuenctid Hope-Siloh i ben gyda pharti pitsa!

### Cyflwyno Beiblau i ddisgyblion Ysgol Bryniago

Cynhaliodd Mrs Marie Lynne Jones a'r Parch Derek Rees wasanaeth yn ysgol Bryniago fis Gorffennaf, a chyflwynwyd Beiblau ar ran yr eglwys er cof am John Harry i ddisgyblion Blwyddyn 6. Derbyniwyd y Beiblau yn frwdfrydig iawn gan y disgyblion a dymunwn yn dda iddynt yn Ysgol Gyfun Gŵyr ym mis Medi.

### Clwb Babanod

Daeth blwyddyn y Clwb Babanod i ben gyda pharti! Roeddem yn ffarwelio gyda 5 o blant eleni a chyflwynwyd hwy a llyfr yr un, a dymunwyd yn dda iddynt. Casglwyd nwyddau a fyddai'n addas i blant, ar gyfer y banc bwyd, a bu'r ymateb yn rhagorol. Gwyliau hapus i bawb!

### Sul Sbesial Cydenwadol

Cynhaliwyd Sul Sbesial Cydenwadol ddydd Sul 13 Gorffennaf ym Moriah Brynaman. Roedd cynulleidfa gref yn bresennol a chafwyd oedfa hwyliog a bendithiol, gydag Elfyn a band Y Diarhebion yn arwain y mawl. Cyflwynwyd eitemau hyfryd gan rhai o blant ac ieuenctid yr ardal a neges hynod o bwerus gan Dafydd Iwan. Da oedd bod yno!

Bydd Sul Sbesial Cydenwadol 2026, dydd Sul 12 Gorffennaf am 10.30 yng nghapel Hope-Siloh. Gŵr gwadd, y Parchg Derek Rees. Nodwch y dyddiad!

### Pererindod y dosbarth Beiblaidd

Cafwyd diwrnod hyfryd fis Mehefin ar bererindod flynyddol dosbarth Beiblaidd yr ofalaeth. Ymwelwyd yn gyntaf ag eglwys Manordeifi a sefydlwyd yn y 13eg ganrif, ac wedi hynny cynhaliwyd oedfa yng nghapel hynafol y Bedyddwyr Blaenffos. Eglwys Clydai oedd cyrchfan olaf y bererindod. Tu mewn iddi ceir tair carreg gydag arysgrifau o'r 5ed a'r 6ed ganrif. Diweddglo hwyliog i'r diwrnod oedd mwynhau swper blasus yn y Crymych Arms sydd yn fenter gymunedol lewyrchus. Diolch yn fawr i Gareth Jones a Hedd Ladd Lewis am drefnu ar ein cyfer.

# WRTH Y LLYW #2



Prif nodwedd y cyfnod aeth heibio oedd teithio 'nôl ag ymlaen i Dŷ John Penri, yn bennaf i drafod gyda'r bobl dda sydd yno'n gweithio, ac yn arbennig felly, Dyfrig ac Elinor. Manteisiaf ar y cyfle hwn i ddymuno'r gorau i Dyfrig – cawsom ein harwain a'n cynnal ganddo yn dawel ddiogel heb y tamaid lleiaf o 'welwch chi fi'. Pob rhwyddineb i'r darpar Ysgrifennydd Cyffredinol: Elinor. Boed gwenau Duw arni wrth ysgwyddo'r gwaith mawr hwn. Bu penodiad newydd hefyd: Margaret Hughes ein Swyddog Cyhoeddiadau a Chydlynydd. Pob dymuniad da iddi.

Cyrhaeddais Dŷ John Penri un tro i ganol dirgelwch y '5' a syrthiodd; syrthio a wnaeth, neu ei dynnu lawr? Pwy oedd yn gyfrifol? Pam? Sut? Bu'r Llywydd nemor ddim o gymorth yn datrys y dirgelwch. Am gyfnod o leiaf bydd yn rhaid i Dŷ John Penri fodoli heb y 5 yn '5 Axis Court'. Nid peth drwg mo hyn i gyd, wedi'r cyfan mae diflaniad y 5 yn amlygu'r **Axis**. Beth yw echel Annibynia? Yr eglwys leol wrth gwrs. Roedd penderfyniad William Tyndale i gyfieithu *ecclesia* fel 'cynulleidfa' yn un da! Yr eglwys leol yw gwaelod a gwraidd ein crefydda. Hebddi nid oes cyfundeb nac Undeb; ond dw i am fentro ychydig yn ddyfnach, gan awgrymu fel hyn: yr eglwys leol sydd yn sicrhau nad oes Cristnogaeth yn bod. Cas gen i'r *abstract noun* hwnnw! Yr eglwys leol – pobl yn cael eu tynnu at Iesu, ac at ei gilydd gan y cariad a blannwyd ynddynt ganddo – sydd yn sicrhau nad ydym yn anghofio mai pobl Crist ydym. Cristnogion sydd bwysig nid Cristnogaeth. Mae'r eglwys leol yn bwysig gan mae pobl Iesu Grist yn lleol sydd yn sicrhau nad yw pobl Iesu Grist ledled byd yn anghofio fod cynnwys popeth yn bwysicach na'i ffurf. Nid cyfundrefn sy'n bwysig, ond cymdeithas. Nid credo, ond credu. Gwasanaethu'r eglwys leol yw diben a bwriad Tŷ John Penri.



Mae Axis Court yn rhan o'r *Swansea Enterprise Park*: Parc **Anturiaeth** Abertawe. Un o nodweddion ffydd, yn naturiol ddigon yw anturiaeth. Mae ffydd o'i hanfod yn anturiaethus, yn fentrus; os ffydd yw'r gannwyll, menter yw'r fflam, os ffydd yw'r môr, menter yw'r halen.

Daeth Eisteddfod Genedlaethol Wrecsam, a mawr ddiolch i Babell yr Eglwysi am yr amrywiaeth mawr o ddarpariaeth a chynhaliaeth a fu yn ystod yr wythnos: a'r eglwysi lleol yn cynnal y cyfan wrth gwrs. Bu'n Eisteddfod dda, ac mae pob cyfle i eistedd yn fendith, ond gwyddom na fedrwn ni ddim newid y byd – newid dim byd i ddweud y gwir – ar ein heistedd. Geilw 'anturiaeth fawr y groes' arnom i sefyll a threulio tipyn ar ledr ein 'sgidiau. Safa; safaf, safwn gyfysgwydd, i ni 'brofi o'r gorfoledd' a ddaw wrth gerdded gytgam a'n 'Ceidwad cry'.

Gan mor agos y naill ddinas o'r llall, es i draw o Wrecsam i Lerpwl am y dydd; a chan mai Lerpwl sy'n cadw ei lwch, teimlais braidd yn anesmwyth yn peidio galw heibio gyda Gwilym ym mynwent Smithdown Road. Wrth ysgrifennu am 'William Williams o Bant-y-celyn, a'i amserau' (*Rhydd-weithiau Hiraethog 1872*) meddai fel hyn, ac fe ellid cymhwyso'r geiriau'n hawdd ddigon i'n holl ymdrechion fel eglwysi'n lleol i rannu'r efengyl yn y gymuned o'n cwmpas: gallasai Pantycelyn 'swyno teimladau pob gradd a dosbarth o gymdeithas fel ei gilydd; fod y ddealltwriaeth gryfaf ... ynghyd â'r werin-dorf ... yn gyffredinol, yn gallu cyd-fwynhau ... ei gynhyrchion.'

**Owain Llŷr Evans**

# Crist yr Andes



Y mae hanes i'r cerflun ac nid dim ond stori i blant ydyw'r hanes. Yn ddiweddar cefais ymweld am y tro cyntaf â'r cerflun i goffáu John Dyfnallt Owen sydd at fynydd y Gwrhyd uwchben Cwm Tawe. Fe'm hatgoffwyd yr un pryd am y gerdd 'Crist yr Andes' luniodd Dyfnallt i gofio fel y mae'r cerflun Crist y Prynwr yn yr Andes yn ddathliad o heddwch ac yn ymgorfforiad o ymrwymiad i bobl dwy wlad yn Ne America, Gwlad Chile a'r Ariannin, i barhau i fod yn gymdogion cyfeillgar yn gwarchod y ffin a'r heddwch rhwng y ddwy wlad.

### Bwlch La Cumbre

Mae'r cerflun wedi ei leoli yn uchel ym mynyddoedd yr Andes ym mwlch La Cumbre ar y ffin rhwng y ddwy wlad, a rhwng Santiago a Mendoza. Codwyd y cerflun yn 1904 i ddathlu cadw'r heddwch rhwng y ddwy wlad.

Ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg roedd anghydfod mawr wedi codi oherwydd anghydweld ynghylch lle yn union ddylid gosod y ffin rhwng y ddwy wlad. Cymaint fu'r anghydweld a'r corddi fel y bu bron i'r ddwy wlad fynd i ryfel yn erbyn ei gilydd. Roedd hyn wedi i'r ddwy wlad chwyddo eu byddinoedd a phentyrru arfau. Er bod lleisiau ar y ddwy ochr fel petai wedi meddwi ar fynd i ryfel, cafwyd lleisiau doeth ymhlith arweinyddion yn y ddwy wlad yn dadlau yn erbyn mynd i ryfel, a'r synnwyr cyffredin hynny a gariodd y dydd yn y diwedd. Bu gweinidogion yn yr eglwysi hefyd yn rhybuddio'u preiddiau – pan fod arfau yn cael eu hamlhau fod yr arfau hynny yn debygol o gael eu defnyddio, gan eu hatgoffa am alwad Crist. Pan gytunwyd i gadw'r heddwch, yn ôl un chwedl, er nad oes sicrwydd hanesyddol i'r manylyn hwn o stori'r chwedl, fe doddwyd llawer o'r arfau y paratowyd i'w defnyddio yn y rhyfel i lunio cerflun efydd o Grist. Ond nid oes angen amau gwirionedd y stori a'r chwedl, ac yn sicr, ar gyfer ein dyddiau ansicr, mae neges i ni yn y stori.

### Gwariant ar arfau

Rydym yn clywed byth a beunydd y dyddiau hyn am alwad yr Arlywydd Donlad Trump ar aelodau o'r gynghrair NATO bod angen i lywodraethau eu gwledydd wario 5% o arian y wlad (GDP) ar gost amddiffyn, a dyma sydd yn gyfrifol eto am y symudiad diweddara rydym yn gweld yn awr i chwyddo a chynyddu ein lluoedd arfog ac i gynyrchu mwy o offer milwrol fyddai'n ein cymhwyso a'n paratoi i fod yn fwy parod i wynebu rhyfel posibl yn y byd ansicr ac ansefydlog yn rhyngwladol rydym yn cael ein hunain ynddo yn awr. A

*parhad ar y dudalen nesaf*

# Defosiwn Undeb Nant Gwrtheyrn

*Dyma'r ail ran defosiwn Dafydd Roberts yn seiliedig ar Salm 73:1-6; 21-28.*



Ac os ydym ni'n onest hefo ni'n hunain, mi allwn uniaethu hefo teimladau'r salmydd pan yw'n sôn am y bobol falch, ffroenuchel. Sut yr ydym ni'n teimlo'n aml pan feddyliwn ni am sefyllfa'r byd heddiw; yr annhegwch a'r anrhaith mewn llefydd; y casineb a'r creulonderau; y lladd a'r dinistrio sy'n digwydd? Heb sôn am ymddygiad cwbl warthus arweinwyr rhai gwledydd sy'n dweud celwydd mor hy, mor aml ac mor agored nes eu bod nhw (a llawer un arall) yn mynd i gredu'r cwbl fel gwirionedd. Mi allwn ninnau syrthio i anobaith a chredu nad oes pwynt i ymdrechu gyda dim byd. Mi wn i un peth, petawn i'n enwi ambell arweinydd rŵan, mi fuasech yn ysgyrnygu'ch dannedd mewn cynddaredd!

### Magl

A'r perygl, wrth reswm, yw inni syrthio i'r un fagl yn union â'r salmydd. Mi allwn ganolbwyntio ar ddrygioni'r byd ac ysgwyd ein pennau – gan anghofio daioni Duw. Rydan ni'n gofyn lle mae Duw yng nghanol hyn i gyd? Rydan ni'n mynd i siarad fel petai 'Duw ar drai ar orwel pell' chwedl y bardd Hedd Wyn adeg y Rhyfel Byd Cyntaf. Wn i ddim a ydi Hedd Wyn yn honni hynny fel ffaith, yntau cymryd trwydded bardd y mae o, i ddweud fod Duw yn *ymddangos* fel pe bai o ymhell oherwydd bod pobl wedi ymgolli yn y rhyfel ac wedi troi eu cefnau arno. All Duw ddim bod 'ar drai' gan mai 'ynddo ef, yr ydym yn byw yn symud ac yn bod' a dyfynnu geiriau o bregeth Paul yn yr Areopagus. [Actau 17:28]. 'Mae'n llond y nefoedd, llond y byd,/llond uffern hefyd yw;/llond tragwyddoldeb maith ei hun,/diderfyn ydyw Duw;/mae'n llond y gwagle yn ddigoll,/mae oll yn oll, a'i allu'n un,/anfeidrol, annherfynol Fod/a'i hanfod ynddo'i hun,' meddai Edward Jones, Maes y Plwm yn ei emyn [C.Ff.215].

### Gyda ni

Mae'r Beibl yn dweud wrthym fod Duw yn wastadol hefo'i bobol. 'Nesewch at Dduw, ac fe nesâ ef atoch chwi. [Iago 4:8] Closiwch at Dduw, a bydd e'n closio atoch chi.' (beibl.net). Mae angen gwneud un peth yn berffaith glir; nid yw Duw yn addo bywyd hawdd, didramgwydd, di-broblemau i neb ond mae'n addo Ei gysur a'i gwmni ar y daith. Fel y dywedodd Iesu Grist wrth ei ddisgyblion [Ioan 16:33 BCND] 'Yn y byd, fe gewch orthrymder, ond codwch eich calon, yr wyf fi wedi gorchfygu'r byd. Dim ond trafferthion gewch chi yn y byd hwn … ond dw i wedi concro'r byd.' [beibl.net]. 'Dyma fi yn eich anfon allan fel defaid i blith bleiddiaid ..'[Mth. 10:16] Ac eto, yn hyn i gyd; 'Ac yn awr, yr wyf fi gyda chwi yn wastad hyd ddiwedd amser.' [Mth. 28:20].

### Manga

Dros y blynyddoedd, dw i wedi adnabod pobl sy'n medru tystio i gysur, diddanwch a nerth a chwmni Duw ar adegau anodd yn eu bywydau. Yn ddiweddar, roeddwn i'n darllen hanes dyn o'r enw Manga sy'n byw yn Nigeria. [cylchgrawn *Open Doors* Mawrth/Ebrill 2025]. Roedd Manga adref hefo'i deulu pan ruthrodd terfysgwyr i'r tŷ a mynd ag ef a'i dad allan. Wedyn, mae'r terfysgwyr yn gofyn i'r ddau ohonynt wadu eu ffydd yn Iesu Grist a throi at Islam. Mae'r ddau ohonynt yn gwrthod. Caiff y tad ei ladd yn y fan a'r lle ac fe gaiff Manga ei drywanu. Gan ei fod o'n gwaedu mor ddifrifol, mi aeth y terfysgwyr a'i adael gan gredu'n siŵr y buasai Manga yn gwaedu i farwolaeth. Yn ystod yr ymosodiad, mi gofiodd Manga am weddi Iesu Grist ar y groes a'i weddïo ei hun (Luc 23:34) 'O Dad, maddau iddynt oherwydd ni wyddant beth y maent yn ei wneud.'

'Yn wyrthiol, mi ddiflannodd y boen; mi deimlais bresenoldeb Duw' meddai. Cael ei holi oedd Manga yn y cylchgrawn a'r cwestiwn nesaf oedd 'sut y mae hyn wedi effeithio ar dy berthynas di hefo Duw?'

'Dw i'n teimlo mod i wedi cael byw i bwrpas; dw i eisiau dweud wrth bawb am y Duw rhyfeddol yma. Dw i ddim am wastraffu amser yn magu dialedd a chasineb ond yn hytrach ganolbwyntio ar ddod i adnabod Duw yn well. Bob dydd, mi fyddai'n edrych yn y drych a gweld y graith lle cefais fy nhrywanu ac yn cofio'r geiriau yma o Weddi'r Arglwydd ac yn eu gweddïo nhw (Mathew 6:12) "a maddau inni ein troseddau, fel yr ŷm ni wedi maddau i'r rhai a droseddodd yn ein herbyn." Dw i'n byw bob dydd â maddeuant yn fy nghalon i'r rheiny ddaru ladd fy nhad a'm brifo innau. Rwyf yn gweddïo am iddynt ddod i ffydd yn Iesu Grist. Rwyf yn gweddïo am eu hiachawdwriaeth.'

*Bydd trydedd rhan yn y rhifyn nesaf o'r* Tyst.

# Crist yr Andes – parhad

chyda hyn, dorri yn ôl ar fuddsoddiad mewn cymorth tramor a rhyngwladol i gynorthwyo pobl yn wyneb tlodi ac argyfyngau difäol. Beth ddaw ohonom?

### Cerflun

Beth am i weinidogion ac eglwysi Crist yn ein gwlad a'n byd dalu sylw i hanes llunio a gosod y cerflun o Grist y Prynwr yn yr Andes rhwng Gwlad Chile a'r Ariannin. 'Pan fod gwledydd yn pentyrru arfau ac yn chwyddo'u byddinoedd bod perygl gwirioneddol bod yr arfau yn debygol o gael eu defnyddio a milwyr, yn fechgyn a merched, a phobl gyffredin yng nghanol y drin a'r lladdfa'n debygol o golli eu bywydau.'

Yn hanes cerflun Crist y Prynwr yn yr Andes fe gariodd synnwyr cyffredin y dydd. Dewch i ni adleisio galwad hanes y cerflun ac anghydffurfio yn hytrach na mynd gyda'r llif a bod yn gyfrannog (*complicit*) i alwad yr Arlywydd Trump a'i alwad i lywodraethau gwledydd y Gorllewin i gydymffurfio gyda'i ddymuniadau milwriaethus. Cofiwn hefyd mai pysgod marw sy'n mynd lawr yr afon. Mae angen rhuddin cymeriad a dewrder i fynd yn erbyn y llif.

### Crist yr Andes

Dwy wlad yn cweryla, a dal i drin
Ei gilydd, oedd Chile ac Archentin;
'I ryfel â ni,' medd un yn ddall,
'I ryfel ar unwaith,' meddai y llall.

A bygwth rhyfel fu o dro i dro,
Nes aeth y ddwy genedl bron o'u co';
Ond cododd yr Arglwydd ddau broffwyd cry'
I lefain dros gymod a heddwch yn hy!

O bulpud ei eglwys yn Buenos Aires,
Dyrchafodd proffwyd ei lais hyd y sêr,
'Rhaid atal rhyfel, brodyr ym ni,
O Arglwydd ein pobl, gwrando ein cri.'

'Brodyr ŷm ni,' oedd llef yn ddi-daw
O enau y proffwyd yn Chile draw;
Ataliwyd y rhyfel, a thyngodd dwy wlad
I fyw yn gytûn heb ryfel na brad.

Toddwyd y gynnau'n ddefnyddiau drud,
Delw Crist yn Heddychwr byd;
Mae Crist yr Andes yn Arglwydd y ffin
Am byth rhwng Chile ac Archentin.

John Dyfnallt Owen

**Emyr Gwyn Evans**

Yr Adran
Gydenwadol

AWST 21 2025 RHIF 234-235

# Tystiolaeth Gristnogol yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Wrecsam

Yn ystod yr wythnos 2–9 Awst, cynhaliwyd Eisteddfod Genedlaethol lwyddiannus a byrlymus ar gyrion dinas Wrecsam, gyda maes croesawgar â digonedd o le, a thywydd bendigedig yn goron ar y cyfan. Cafwyd teilyngdod yn y prif gystadlaethau, a llongyfarchwn bawb yn gynnes iawn. Heb os, bydd y profiad teimladwy o weld Tudur Hallam yn ennill y gadair ac ymateb arbennig yr Archdderwydd Mererid Hopwood yn aros yn y cof am amser maith.

Bu gwaith yr eglwysi hefyd yn rhan o'r arlwy, gyda gwasanaeth arbennig yn y pafiliwn ar y bore Sul ar thema'r Ffin, wedi ei baratoi gan Jen Eynon, a Chymanfa Ganu afieithus gyda'r nos. Yn ystod yr wythnos cafwyd gwasanaeth cymun Cymraeg yn Eglwys San Silyn dan arweiniad James Tout ac offeren Gymraeg dan ofal yr Esgob Edwin Regan yn Eglwys Gadeiriol y Santes Fair.

Yn yr un modd daeth miloedd i mewn i babell Cytûn i fwynhau paned a sgwrs, a chynhaliwyd nifer o ddigwyddiadau a lansiadau yno yn ystod yr wythnos. Braf oedd cael cwmni Cymorth Cristnogol, Cymdeithas y Beibl, y Cyngor Ysgolion Sul a nifer o fudiadau eraill o fewn y stondin. Cynhaliwyd oedfa bob dydd am 11 o'r gloch dan ofal yr eglwysi lleol, a chafwyd dau gyfarfod arbennig i ddangos cefnogaeth i drigolion Gaza drwy sefyll mewn undod ag ymgyrch y llinell goch. Daeth nifer ynghyd i lansiadau chwech o lyfrau newydd, gan gynnwys cyfrol olaf Huw John Hughes, pryd y cafwyd cyfle i dalu teyrngedau iddo.

Isod ceir detholiad o luniau yn darlunio rhai o'r pigion.



Cynan Llwyd yn rhannu gair ynghanol bwrlwm y babell



Cyfarfod y golygyddion: Alun Tudur o bapur *Y Tyst*, gyda Marian, Aled a Huw o *Cenn@d*



Bob dydd roedd gennym griw o wirfoddolwyr o'r eglwysi lleol yn gweini te a choffi. Diolch i bob un cylch a wasanaethodd yn y babell – dros 150 ohonynt i gyd.



Offeren Gatholig yng ngofal yr Esgob Regan



Lansio cyfrol newydd Aled Edwards, *Cyrraedd Bannau*, yng nghwmni'r awdur, ynghyd â Sian Wyn Rees a fu'n ei holi, ac Aled Davies o'r wasg



Lansio cyfrol newydd Aled Jones Williams, *Reit Rownd*, yng nghwmni'r awdur, ynghyd â Rhys Llwyd a fu'n ei holi, ac Aled Davies a Mair Jones Parry o'r wasg



Lansio cyfrol newydd Huw John Hughes, *Dyrys Daith*, pryd y cafwyd cyfle i gyflwyno copi i Huw a Gwenda Jones, y ddau y cyflwynodd Huw John y gyfrol iddynt yn ei ragair



Aled Lewis Evans ar lwyfan y brifwyl



Côr Morgan Llwyd yn oedfa'r bore yn y pafiliwn




Sefyll yn gadarn dros Gaza



Lansio cyfrol newydd Owain Llŷr Evans, *Yng Ngolwg Fyfdd*, yng nghwmni rhai o gyfeillion Eglwys Minny Street, Caerdydd, ac Aled Davies o'r wasg

(parhad ar y dudalen nesaf)

## *Tystiolaeth Gristnogol yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Wrecsam*

*(parhad o dudalen 1)*



Y prif weinidog Eluned Morgan yn galw i mewn i gyfarch y gwirfoddolwyr



Margaret a Marc Morgan yn arwain un o'r oedfaon



Lansio cyfrol newydd *Llwybr Cadfan* gydag Aled Davies, Nia Elain Roberts ac Elin Owen

# O'r byd a'r betws

## Paratoi ar gyfer etholiadau Senedd Cymru 2026

Mae'n siŵr bod darllenwyr *Cenn@d* wedi darllen am ymddeoliad y Parchg Gethin Rhys o'i gyfrifoldebau fel Swyddog Polisi Cytûn, a'i waith fel cyswllt y corff hwnnw gyda llywodraethau Senedd Caerdydd. Gwnaeth dymor da o waith ac rydym yn ddyledus iddo am ei drylwyredd a'i ddiffuantrwydd yn y maes. Bu'n arwain yr enwadau drwy feysydd yn ymwneud â Brexit a Covid, etholiadau ac argyfyngau economaidd a wynebodd gwledydd Prydain dros y blynyddoedd diwethaf hyn. Bellach, mae'r cyfaill Iestyn Davies wedi cydio yn yr awenau, ac yn ymroi i gasglu data a dyheadau eglwysi Cymru ar faterion sy'n debygol o godi yn yr etholiadau ar gyfer Senedd Cymru yn 2026.

Rydym eisoes yn gyfarwydd â'r pleidiau gwleidyddol yn tanio'u hymgyrchoedd etholiadol, gan rannu taflenni a diffinio'u polisïau, ac mae'n bwysig bod daliadau a blaenoriaethau'r eglwysi'n cael eu ffurfio a'u cyflwyno ym mhair y drafodaeth honno. Mae'n berygl beunyddiol clywed y pleidiau yn addo popeth heb syniad sut bydd cyllideb Senedd Cymru yn ariannu'r addewidion hynny. Mae'r polau piniwn yn awgrymu'n gyson na fydd un blaid unigol yn ffurfio llywodaeth yn 2026, ac mae'n debygol y bydd sawl lliw ymhleth yn y llywodaeth newydd honno. Ni fyddwn yn ethol unigolion fel aelodau o'r senedd, ond bydd pob un o'r pleidiau yn yr etholaethau newydd yn cynnig rhestr o enwau, gyda system gyfrannol yn nodi pwy fydd y 96 aelod pan ddônt ynghyd ar ôl yr etholiad.



Gethin a'i briod, Fiona, gyda staff Cytûn ar ddiwrnod ei ymddeoliad



Iestyn Davies, sydd bellach yn gweithio i Cytûn fel eu swyddog polisi

Bwriad Cytûn yw casglu daliadau amhleidiol y cyrff Cristnogol er mwyn eu costrelu i ffurfio math o faniffesto Cristnogol a fydd yn cael ei gynnig i'r eglwysi i alw'r pleidiau i gyfrif wrth iddynt gynnig eu polisïau. Bydd y meysydd amlwg yn siŵr o hawlio'u lle yn y drafodaeth, megis Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol, Addysg, Economi, Cartrefedd, Hyfforddiant, Trafnidiaeth, Cyfraith a Threfn, Diwydiant, Diwylliant ac ati. Tebyg y bydd y llais Cristnogol am gydio mewn themâu penodol fel hawliau sifil, yr amgylchedd, parch i'r unigolyn, heddwch, urddas bywyd ac yn y blaen. Bydd llawer yn awyddus i drafod natur cefn gwlad a'r fro Gymreig, yn cynnwys effaith diboblogi ar y fasnach leol, y darpariaeth o ysgolion cynradd ac uwchradd, a phrinder tai fforddiadwy i drigolion cynhenid y cymunedau. Bydd diffyg dewis o drafnidiaeth cyhoeddus dibynadwy yn ofid i lawer, gan fod canoli gwasanaethau yn yr ardaloedd poblog yn lleihau trafnidiaeth mewn ardaloedd gwledig.

Mae'n siŵr y bydd cyfarfodydd ar lefel Henaduriaeth (P) neu Gymanfa (B) yn derbyn gohebiaeth o'u prif lysoedd ynghylch hyn. Ar lefel yr eglwysi lleol, byddai derbyn gohebiaeth oddi wrth grŵp o aelodau eglwysi unigol yn gymorth i Iestyn Davies, Cytûn, wneud ei waith, gan rannu ag ef yr hyn sy'n gonsýrn iddynt o ran polisi gwariant cenedlaethol yng nghyd-destun profiadau ardal leol. Bu'r polisi o ddosbarthu tocynnau teithio i bobl dros 60 oed ar fysys yn gam gwerthfawr, ond a oes digon o fysys yn rhedeg o'r pentrefi nad ydynt ar y priffyrdd amlwg? Ble mae prinder fflatiau i bobl ifanc, neu a oes digon o fyngalos i bensiynwyr yn eich ardal chi? Mae diboblogi cefn gwlad yn cael effaith amlwg ar weithgareddau cymdeithasol, crefyddol a masnachol, ond beth all y llywodraeth yn Senedd Cymru ei wneud yn eich broydd chi?

Byddai anfon gair at Iestyn Davies, Tŷ Hastings, Llys Fitzalan, Caerdydd CF24 0BL, neu ebost at Iestyn@cytun.cymru yn werthfawr. Mae eich llais chi fel eglwys leol yn bwysig. Os nad oes oedfa yn eich eglwys dros y chwe wythnos nesaf, gallwch ddod ynghyd fesul hanner dwsin a nodi eich barn ar unrhyw un o'r pwyntiau a nodaf uchod. Peidiwch â barnu unrhyw un arall am eu tawedogrwydd oni bai eich bod chi yn codi llais eich hun.

*Denzil I. John*

# Lansio cyfrol Llwybr Cadfan



Nos Fercher, 23 Gorffennaf, cafwyd noson arbennig yn nhafarn y Plu, Llanystumdwy, i hyrwyddo llwybr pererindod newydd sydd wedi ei greu gan Esgobaeth Bangor, yn dilyn ôl traed Cadfan Sant, ac i lansio cyfrol sy'n gydymaith i'r daith.

Wrth wahodd eraill i ymuno yn y bererindod, dywed Esgobaeth Bangor:

> Taith yw pererindod – ar hyd llwybr, fel arfer i le sanctaidd. Mae'n gyfle i gamu allan o rythm bywyd bob dydd, i gyfuno cerdded â darganfod lleoedd newydd a chwrdd â phobl newydd, ac i fwynhau eiliadau o fyfyrdod a hunanddarganfod. Dilynwch ôl traed Cadfan Sant o'r 6ed ganrif ar hyd Llwybr Cadfan, taith bererindod 12-diwrnod. Dechreuwch yn nhref arfordirol Tywyn a chrwydrwch lwybr 128 milltir yr holl ffordd i Ynys Enlli, 'ynys yr ugain mil o saint' sy'n parhau i fod yn bwysig i Gristnogion.
>
> Ar hyd y daith, fe welwch eglwysi anghysbell, fe gewch deithio ar hyd arfordir creigiog a dramatig, a phrofi harddwch tawel y mannau sanctaidd.



Mae'r daith hon yn rhan o broject Pererin sy'n cael ei gydlynu gan Elin Owen ar ran yr Esgobaeth. Wrth holi Elin am y cynllun, dywedodd

> Mi ddechreudd Sant Cadfan ei weinidogaeth yn Nhywyn yn y 6ed ganrif a gorffen ei daith ar Enlli, lle y daeth yn abad cyntaf yr ynys.
>
> Mae'r gwaith o adfer y llwybr cerdded sy'n dilyn y daith hanesyddol hon bellach wedi ei gwblhau. 'Pererin' ydi enw'r prosiect yma sydd yn rhan o waith Esgobaeth Bangor. Y bwriad ydi rhoi sylw i'r llwybr fel y bydd yn llwybr pererindod o bwys yng Nghymru.

Ond pam edrych ar bererindod? Yn ystod y degawdau diwethaf, mae sefydliadau seciwlar fel Cadw ac awdurdodau lleol wedi ceisio manteisio ar y cysylltiadau rhwng lleoedd sanctaidd, twristiaeth a'r economi leol, gan ddefnyddio'r safleoedd, ond efallai'n tueddu i hepgor y gogwydd Cristnogol i bererindod.

Mae Llwybr Cadfan yn cysylltu pymtheg o eglwysi hynafol. Mae'n cynnwys opsiynau am deithiau byr a hir, llefydd aros, cysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus, map pwrpasol a chodau QR perthnasol.

Prosiect diweddar oedd cyhoeddi cyfrol yn cynnwys cerddi sy'n plethu i mewn i leoliadau ar hyd y daith. Roedd dau fardd preswyl, Siôn Aled a Sian Northey, yn rhan o'r cynllun, yn ogystal ag amryw o artistiaid gwadd. Cynhaliwyd 11 digwyddiad mewn lleoliadau ar hyd y llwybr, gan gynnwys Eglwys Sant Cadfan, Abaty Cymer, a hyd yn oed ar drên Rheilffordd Ffestiniog yn 'Cadfan ar y Cledrau'.

Ymhlith y perfformwyr yr oedd Manon Steffan Ros, Twm Morys, Gwyneth Glyn, y diweddar Dewi Pws ac eraill. Roedd hwn yn brosiect ar y cyd â Chyhoeddiadau'r Gair, a aeth ati i gyhoeddi'r gyfrol sy'n llawn cerddi newydd sbon a lluniau lliw hyfryd o olygfeydd ar hyd y daith. Dyma gyfrol hwylus i bob pererin sydd am gerdded y daith, neu am ei dilyn o bell mewn cadair gyfforddus o'ch cartref. Fel y dywedodd y bardd Sian Northey, 'Mae hwn wedi bod yn gaseg eira o brosiect' – ac mae'r gyfrol newydd, sy'n casglu'r blogiau, cerddi, lluniau ac ysgrifau, yn goron ar y cyfan.

Dywedodd y Parch. Andrew John, esgob Bangor:

> Fel Cristnogion yn Esgobaeth Bangor, gallwn olrhain ein hanes yn ôl i ddynion a menywod sanctaidd a sefydlodd gymunedau gweddi, tystio a gwasanaethu ledled yr esgobaeth mor gynnar â'r bumed ganrif. Mae'r seintiau Celtaidd cynnar hyn – Deiniol, Cybi, Seiriol, Dwynwen, Cadfan, a llawer o rai eraill – yn parhau i gael eu coffáu yn enwau ein heglwysi, pentrefi a threfi.
>
> Fil a hanner o flynyddoedd yn ddiweddarach, mae un o nodweddion amlycaf dynolryw, sef yr ysfa i symud a chrwydro, yn parhau i gael ei ddathlu yma. Mae'r cysyniad o bererindod, a'i chysylltiadau â seintiau Celtaidd lleol, yn fyw hyd heddiw ymhlith ein cymunedau, ac mae prosiect llenyddol cwbl unigryw 'Llwybr Cadfan' wedi llwyddo i roi egni newydd, barddonol ei naws iddo. Rwy'n mawr obeithio y byddwch yn mwynhau mynd ar y bererindod hon cymaint ag y gwnes i.'

Yn ystod y lansiad cafwyd cyfle i glywed nifer o'r beirdd yn darllen eu cerddi, cyn cloi ag eitemau arbennig gan Gwyneth Glyn a Twm Morys, a gyflwynodd eu heitemau yn Gymraeg ac yn y Llydaweg.

Mae'r gyfrol ar gael yn y siopau, pris £9.99.

*Aled Davies*





## Dathlu 80 mlynedd o obaith...

Ymunwch â ni yng Nghaerdydd am noson arbennig o addoliad, ysbrydoliaeth a diolchgarwch yng Nghymru i nodi 80 mlynedd o Cymorth Cristnogol.

Dydd Mercher 17 Medi 2025.
Gwasanaeth am 6.30-7.30yh.
Lluniaeth o 5.30yh. Capel Tabernacl, yr Ais, Caerdydd.

Byddem wrth ein bodd eich gweld chi yno! Cofrestrwch gan ddefnyddio'r ddolen https://www.christianaid.org.uk/events/oedfa-cymorth-cristnogol-yn-80-oed-cymru

# Pynciau Perthnasol – colofn Rosa Hunt
## Barddoniaeth

Fe ges i'r pleser o fod yn y Tabernacl nos Fercher, 23 Gorffennaf, i fwynhau lansiad cyfrol newydd o farddoniaeth Mererid Hopwood, *Mae.* Mae'r gair 'mae' yn un anodd i siaradwyr newydd: dwi'n cofio gofyn pam mae dau air yn Gymraeg am 'is' – 'yw' a 'mae'! Ond nawr mod i wedi dysgu ychydig mwy o Gymraeg, mae'n od gweld y gair *Mae* yn sefyll ar ei ben ei hun.

Yn ystod y noson gofynnwyd i Mererid pam roedd hi wedi dewis y gair yna fel teitl i'r gyfrol. Ei hateb hi oedd adrodd stori am y diwrnod tyngedfennol yna ym mis Mawrth 2020 pan wnaeth Boris Johnson ymddangos ar y teledu a dweud wrthym fod y pandemig wedi cael gafael yn ein gwlad ac byddai'n rhaid i ni aros gartref. Fe wnaeth Mererid ein hatgoffa o'r negeseuon a ddaeth o bob cyfeiriad: rhaid cadw pellter! Rhaid golchi dwylo! Rhaid defnyddio diheintydd! Rhaid gwisgo mwgwd! Ond y diwrnod hwnnw cafodd hi alwad ffôn gan S4C yn dweud: "Mererid – mae raid i ni gael cerdd!" A 'Mae' yw teitl y gerdd honno a gyfansoddwyd ar ddechrau'r pandemig.

Mae rhywbeth Cymraeg, on'd oes, am ymateb i bandemig byd-eang drwy gyfansoddi cerdd, ond mae hefyd yn ymateb llawn doethineb. Pan fyddwn ni'n dod wyneb yn wyneb â her enfawr – profedigaeth neu salwch, efallai; rhyfel neu drais – mae llwyth o emosiynau'n golchi drosom fel tonnau'r môr. Does dim digon o eiriau gyda ni i gyfleu maint ac amrediad yr emosiynau yna. A dyna grefft y bardd: cyfleu'r ystod fwyaf o ystyr gyda'r nifer lleiaf o eiriau. Mae dogfennau cyfreithiol yn mynd yn hirach ac yn hirach wrth iddyn nhw geisio disgrifio pob sefyllfa bosibl a meddwl am bob eithriad posibl. Ond mae barddoniaeth yn gwneud y gwrthwyneb: mae'n defnyddio nifer fach o eiriau i greu delweddau sy'n ysgogi emosiynau ac yn rhoi i ni'r geiriau i ddisgrifio sut ydyn ni'n teimlo.

Tu allan i'r Tabernacl mae arwydd gyda fy enw a'm teitl, ac yn aml iawn mae'r bobl ddigartref yn dod i mewn ac yn gofyn i mi, "What sort of a doctor are you?" Mae rhaid i fi gyfaddef nad ydy fy noethuriaeth ddim yn un ymarferol iawn, achos nid meddyg ydw i ond doctor mewn diwinyddiaeth. Ac mae'r geiriau 'doctor mewn diwinyddiaeth' yn consurio delweddau o hen lyfrau trwm, llychlyd, llawn diffiniadau hir a dadlau cymhleth am natur Duw, ewyllys rhydd, damcaniaethau'r iawn a phethau felly. Ac mae 'na lyfrau fel hyn, ac mae lle iddyn nhw hefyd! Ond, fel mae'n digwydd, fe wnes i ran o'm doethuriaeth ar ddiwinydd go wahanol.

Effrem Syrus oedd ei enw ef, ac roedd e'n byw mewn lle sy'n rhan o Dwrci heddiw, ond yn y bedwaredd ganrif. Sefydlodd goleg diwinyddol i hyfforddi arweinwyr yr eglwys – eglwys oedd yn ifanc iawn ar y pryd, wrth gwrs! Roedd Ephrem yn byw ac yn dysgu mewn cyfnod pan oedd cymaint o anghytgord diwinyddol ynglŷn â natur Iesu a natur Duw, ac ysgrifennwyd llawer o lyfrau hir a chyfreithiol, llawn diffiniadau athronyddol ar y pwnc.



Ond gwelai Effrem bethau'n wahanol. Roedd e'n hollol benderfynol nad ydy hi'n bosibl i ni rwystro Duw a'i ddal yn gaeth mewn diffiniadau neu athroniaeth ddynol. Mae Duw yn rhy fawr ac yn rhy gymhleth ac yn rhy wahanol i gael ei ddeall a'i ddisgrifio gennym mewn diffiniadau. Felly, ysgrifennodd Effrem ei ddiwinyddiaeth fel barddoniaeth. I Effrem, roedd barddoniaeth yn gyfrwng perffaith i gyfleu paradocs, a dydy hi ddim yn bosibl siarad am Dduw heb dderbyn cyfres o baradocsau: mae Duw yn rhy fawr i ni ei ddeall OND mae Duw wedi datgelu ei hun mewn natur, Gair a Mab; dydy ein geiriau ni ddim yn ddigon i ddisgrifio Duw OND mae Duw ei hun wedi defnyddio gair a Gair i gyfathrebu â ni. Yng ngeiriau Effrem ei hun:

> Peidiwch â gadael i'ch deallusrwydd gael ei aflonyddu gan eiriau yn unig,
> canys y mae Paradwys yn syml wedi'i wisgo ei hun
> mewn termau sy'n debyg i chi …
> … mae eich natur yn llawer rhy wan i allu cyrraedd ei fawredd.

Mae'r traddodiad barddonol Cymraeg yn un gwerthfawr ynddo'i hun, wrth gwrs. Ond i ni, Gristnogion, mae'n werthfawr mewn ffordd arbennig: mae'n ein galluogi i fynegi ein haddoliad a'n mawl i Dduw sydd y tu hwnt i'n dychymyg ond yr un pryd yn Dduw sydd wedi datgelu ei hun yn Iesu Grist, Gair mewn cnawd. "God needs prophets in order to make himself known," meddai Hans Urs von Balthasar, "and what a prophet has to say can never be said in prose." A dyma Walt Whitman:

> After the seas are all cross'd, (as they seem already cross'd)
> After the great captains and engineers have accomplish'd their work,
> After the noble inventors, after the scientists, the chemist, the geologist, ethnologist,
> Finally shall come the poet worthy that name,
> The true son of God shall come singing his songs.

Dwi'n falch, felly, i fyw mewn gwlad sy'n ymateb i bandemig gyda cherdd. Gadewch i ni feithrin ac annog y beirdd yn ein mysg, achos eu bod nhw'n gallu llefaru cri ein heneidiau, a'n helpu i gyfathrebu â Duw ei hun. Mae angen mwy ohonynt arnom. Mae.

O.N. Prynwch y gyfrol! Mae'n ardderchog!

# Credo Nicea – Sesiwn Tri: Iachawdwriaeth y Groes

**Diwygiwyd geiriad y Credo a gytunwyd yn Nicea (325 OC) yng Nghyngor Caergystennin yn 381 OC. Yn gyffredinol, y fersiwn hwn, Credo Nicea-Caergystennin, sydd wedi ei etifeddu gennym ar draws y canrifoedd, yw'r un a ddefnyddir gan y traddodiadau Cristnogol ar draws y byd ac sy'n sail i'r myfyrdodau sy'n dilyn.**

## Jerwsalem a'r Dwyrain Canol

Ysgrifennwyd gan Susan Rantisi Barhoum

Ganwyd Susan yn Ramallah ar y Lan Orllewinol (Palesteina/ Israel), lle y'i magwyd dan feddiannaeth Israel. Cwblhaodd ei gradd BA mewn bioleg gyda chemeg ac astudiaethau Cristnogol yn 1989 ym Mhrifysgol Aurora, Illinois, UDA. Graddiodd gyda gradd Meistr mewn Diwinyddiaeth o'r Faith Seminary, Tacoma, Washington, UDA, yn 2001, ac enillodd ei MBA yn 2006 o Brifysgol Haifa. Yn 1991, priododd Samuel Barhoum, sy'n Archddiacon Esgobaeth Anglicanaidd Jerwsalem, ac mae ganddynt ferch, Nellie Anne, a mab, Yousef. Ar hyn o bryd, maent yn byw yn Nasareth, lle mae'n gweithio'n llawrydd yn y maes datblygu a chodi arian.

**Esgobaeth Esgobol Jerwsalem – Talaith Jerwsalem a'r Dwyrain Canol**

Mae Esgobaeth Esgobol Jerwsalem yn cwmpasu pum gwlad: Palesteina, Israel, Gwlad yr Iorddonen, Libanus a Syria. Ychwanega'r ardal ddaearyddol eang hon nifer o gymhlethdodau i waith yr Esgobaeth o ganlyniad i'r ffiniau, y pwyntiau gwirio a'r llywodraethau cenedlaethol niferus yn yr ardal. Yn benodol, mae gweinyddu ei gweinidogaethau yn heriol iawn. Er gwaetha'r anawsterau hyn, mae'r Esgobaeth yn gyfrifol am dros dri deg o sefydliadau, yn cynnwys ysbytai, ysgolion, clinigau, canolfannau adsefydlu, gwestai a chartrefi i rai sydd wedi ymddeol. Fel Cristnogion mewn ardal sy'n llawn anghydfod gwleidyddol, meddiannaeth a gwahaniaethu, ceisiwn gynnal ein tystiolaeth, gan lewyrchu goleuni Crist i ardaloedd o dywyllwch a chynnig gobaith i rai a fyddai, heblaw am hyn, yn byw mewn digalondid. Er bod ein niferoedd wedi gostwng, credwn fod ychydig o oleuni yn gwasgaru llawer o dywyllwch.

**Croeshoelio – iachawdwriaeth**

Fe'i croeshoeliwyd drosom dan Pontius Pilat. Dioddefodd angau ac fe'i claddwyd. Atgyfododd y trydydd dydd yn ôl yr Ysgrythurau, ac esgynnodd i'r nef, ac y mae'n eistedd ar ddeheulaw'r Tad. A daw drachefn mewn gogoniant i farnu'r byw a'r meirw: ac ar ei deyrnas ni bydd diwedd.

**Darlleniad o'r Beibl – 1 Ioan 4:9–10**

9 Yn hyn y dangoswyd cariad Duw tuag atom: bod Duw wedi anfon ei unig Fab i'r byd er mwyn i ni gael byw drwyddo ef. 10 Yn hyn y mae cariad: nid ein bod ni'n caru Duw, ond ei fod ef wedi ein caru ni, ac wedi anfon ei Fab i fod yn aberth cymod dros ein pechodau.

**Myfyrdod**

Pan fyddwn yn adrodd Credo Nicea yn yr eglwys, rydym yn datgan ein ffydd. Mae'r ffydd hon yn llawer mwy nag argyhoeddiad personol. Mae'n pwysleisio ffydd a rennir gan gymuned sy'n unedig fel aelodau o gorff Crist.

**Fe'i croeshoeliwyd drosom dan Pontius Pilat**

Roedd yr Eglwys Fore am chwalu unrhyw amheuon ynglŷn â dilysrwydd hanesyddol dioddefaint a marwolaeth Iesu o fewn hanes. Felly mae'r Credo yn sôn am y llywodraethwr Rhufeinig Pontius Pilat. Cefnogir hyn yn yr Efengylau a chan yr hanesydd Iddewig, Josephus, yn ei *Antiquities.*

**Dioddefodd angau ac fe'i claddwyd**

Wedi ei goroni â choron ddrain, dyrchafwyd Iesu ar groes, ac yno bu farw. Ystyrid mai croeshoelio oedd y math gwaethaf ar farwolaeth. Roedd yn hir a phoenus, ac yn fodd o gywilyddio cyhoeddus a neilltuid ar gyfer y drwgweithredwyr gwaethaf. Dioddefodd Iesu farwolaeth mewn modd mor erchyll er mwyn cyflawni'r weithred fwyaf o gariad er ein mwyn! Iesu Grist, yr un dibechod, yn ildio'i hunan i rym angau i'n gwaredu ni. Trwy ei farwolaeth, dinistriodd Iesu'r rhwystr oedd yn ein gwahanu ni o bresenoldeb Duw, gan ein dwyn yn ôl i afael ei ras: "Oherwydd dioddefodd Crist yntau un waith am byth dros bechodau, y cyfiawn dros yr anghyfiawn, i'ch dwyn chwi at Dduw." (1 Pedr 3:18)

**Atgyfododd y trydydd dydd yn ôl yr Ysgrythurau**

Newidiwyd popeth gan yr atgyfodiad. Oherwydd atgyfodiad Iesu, oedd yn cyflawni addewidion yr Hen Destament, rydym wedi ein hachub; nid y diwedd yw marwolaeth ond dechrau bywyd newydd i bawb ohonom. Mae buddugoliaeth yr atgyfodiad yn torri drwy dywyllwch y croeshoelio. Mae'r bedd gwag yn dangos buddugoliaeth Iesu dros angau a'r addewid am fywyd a gobaith newydd: "Oherwydd fel y mae pawb yn marw yn Adda, felly hefyd y gwneir pawb yn fyw yng Nghrist" (1 Corinthiaid 15:22).

**Esgynnodd i'r nef, ac y mae'n eistedd ar ddeheulaw'r Tad**

Y mae esgyniad Iesu yn cryfhau ein gobaith fwy fyth. Yn fuddugoliaethus dros angau, aeth Iesu i'r nef i baratoi lle ar ein cyfer. Mewn safle o rym ac awdurdod, mae'n ymgorffori presenoldeb bythol-bresennol Duw a'i fwriad terfynol ar gyfer y ddynolryw.

**A daw drachefn mewn gogoniant i farnu'r byw a'r meirw: ac ar ei deyrnas ni bydd diwedd**

Bydd Iesu'n dychwelyd mewn gogoniant i farnu'r byw a'r meirw gan sefydlu teyrnas heb ddiwedd. Ni ddylai hyn fod yn achos ofn ond yn hytrach yn achos gobaith. Fe'n gelwir i fyw gan feddwl mai hwn yw ein diwrnod olaf ar y ddaear. Fel hyn, gallwn fod yn barod i gyfarfod Iesu, lle mae cyfiawnder a thangefedd tragwyddol: "Yna clywais lais o'r nef yn dweud, 'Ysgrifenna: "O hyn allan gwyn eu byd y meirw sy'n marw yn yr Arglwydd." "Ie," medd yr Ysbryd, "cânt orffwys o'u llafur, oherwydd y mae eu gweithredoedd yn eu canlyn hwy" ' " (Datguddiad 14:13).

*(parhad ar y dudalen nesaf)*

## Credo Nicea – Sesiwn Tri: Iachawdwriaeth y Groes

Mewn byd sydd wedi ei sarnu gan drais a rhaniadau, yn arbennig yn ein rhanbarth ni, mae Credo Nicea yn cynnig neges o obaith a gwaredigaeth. Nid datganiad hanesyddol ydyw yn unig; mae'n alwad i weithredu. Galwad i'r Eglwys i feddwl yn ddyfnach am y Credo fel na fydd y ffyddloniaid yn adrodd y geiriau yn unig ond yn deall mor gyfoethog ydyw. Mae aberth Iesu yn ein cymell i geisio heddwch a chymod, gan ddewis cariad yn lle casineb, hyd yn oed ynghanol poen enfawr. Mae hyn yn troi'n alwad i ni gydweithio i adeiladu dyfodol mwy cyfiawn a heddychlon, gan gael ein hysbrydoli gan y neges fawr o obaith a gynigir gan y Crist atgyfodedig. Dyma ein hatgoffa nad dioddefaint yw'r diwedd; bydd cariad a chyfiawnder Duw yn gorchfygu yn y diwedd. Mae'n neges bwerus i'n nerthu a'n hysbrydoli ar gyfer gwaith cymod, maddeuant a thangnefedd.

**Cwestiynau i fyfyrio arnynt**

1. Sut mae deall Credo Nicea fel ffydd a rennir, yn hytrach nag argyhoeddiad personol yn unig, yn cryfhau eich ymdeimlad o berthyn ac yn cael effaith ar eich agwedd at addoliad a'ch ymwneud â'ch cymuned eglwysig?
2. Yn eich bywyd chi eich hun, ydych chi wedi cael profiad o sefyllfa oedd yn ymddangos yn anobeithiol, ond lle daethoch o hyd i obaith a dechrau newydd? Sut mae aberth eithaf Iesu a'i atgyfodiad yn dylanwadu ar eich dealltwriaeth o ffydd a'ch perthynas â Duw, ac yn cysylltu â'ch profiad personol chi eich hun?
3. Sut y gallwch gymhwyso'r neges o obaith sydd yn atgyfodiad Iesu i'ch bywyd chi, yn arbennig ar adeg heriol?
4. Mae'r myfyrdod yn gorffen gyda galwad i weithredu am fyd mwy cyfiawn a heddychlon. Pa gamau penodol allwch chi eu cymryd yn eich bywyd bob dydd i ymgorffori'r neges o gariad, maddeuant a chymod a bwysleisir yng Nghredo Nicea?

**Gweddi**

Defnyddiwch y pwyntiau gweddi hyn fel arweiniad i'ch cyfnod o weddi:

- Dyfnhau eich dealltwriaeth a'ch ffydd: Gweddïwch am gael dealltwriaeth ddyfnach o Gredo Nicea. Gofynnwch i Dduw agor eich calon i gyfoeth ei neges a'ch helpu i symud y tu hwnt i adrodd y geiriau'n unig. Gofynnwch i Dduw agor eich calon i'w neges o rannu ffydd, ac undod o fewn corff Crist. Myfyriwch sut y gall yr hyn a wnewch chi gyfrannu at gymuned eglwysig gryfach a mwy cariadus.
- Byw'r neges o obaith ac atgyfodiad: Myfyriwch ar ddioddefaint a marwolaeth Iesu. Diolchwch iddo am gyflawni'r weithred eithaf o gariad drosoch chi. Gweddïwch am nerth i fyw'r neges o obaith a gwaredigaeth yn eich bywyd bob dydd. Gofynnwch i Dduw eich arwain i ddewis cariad yn lle casineb, hyd yn oed mewn sefyllfaoedd heriol. Ceisiwch ysbrydoliaeth yn aberth Iesu i ymdrechu dros heddwch a chymod yn eich cymuned ac yn y byd, yn arbennig mewn mannau sy'n wynebu trais a rhaniadau.
- Dowch o hyd i obaith yn yr atgyfodiad: Rhowch ddiolch am addewid o obaith a bywyd newydd drwy atgyfodiad Iesu. Gweddïwch am obaith wrth wynebu dioddefaint a heriau, gan ofyn i Dduw am nerth i gredu nad dioddefaint yw'r diwedd, ond y bydd cariad a chyfiawnder Duw yn trechu yn y diwedd. Ceisiwch ddewrder a nerth yn neges Credo Nicea i'ch galluogi i weithio dros fyd mwy cyfiawn a heddychlon dan ysbrydoliaeth buddugoliaeth derfynol Crist.

### Swydd Newydd – Rheolwr yr Ymddiriedolaeth

Addoldai Cymru
Welsh Religious Buildings Trust

Diben y rôl yw arwain a rheoli gweinyddiaeth Addoldai Cymru, gan gefnogi ei chenhadaeth i ddiogelu a dathlu capeli anghydffurfiol hanesyddol yng Nghymru. Mae'r rôl yn sicrhau bod yr Ymddiriedolaeth yn gweithredu'n effeithiol, yn cydymffurfio â rhwymedigaethau statudol, ac yn cysylltu'n ystyrlon â'r cymunedau y mae'n eu gwasanaethu.

Oriau: 30 yr wythnos

Cyflog: £33,208.80 y flwyddyn

Lleoliad: Gweithio o bell

Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau: 31 Awst 2025

Am wybodaeth bellach cliciwch ar y ddolen isod:
https://addoldaicymru.cymru/wp-content/uploads/2025/07/250721-JD-Trust-Manager-Welsh-vfinal.pdf

BBC radio cymru


*Caniadaeth y Cysegr*
**Sul, 24 Awst, am 7:30yb a 4:30yp**
Amrywiaeth o emynau yng nghwmni Siân Meinir

**Sul, 31 Awst, am 7:30 yb a 4:30yp**
Amrywiaeth o emynau

*Oedfa Radio Cymru*
**Sul, 24 Awst, am 12:00yp**
Oedfa sgwrs gyda Rhys Jones, Aberystwyth

**Sul, 31 Awst, am 12:00yp**
Oedfa dan ofal Donna George, Crymych

# COFIO GARETH: Y PARCHEDIG WILLIAM GARETH EDWARDS 1942–2025



Cofio beth? Cofio'r wên lydan? Ie. Cofio'r mynd ar garlam i bob man a cheisio cyrraedd mewn pryd a methu? Ie'n sicr. Cofio'r siarad efo pawb a chymryd diddordeb dwfn ynddyn nhw? Yn bendant, ie. Cofio'r doniau amrywiol? Wrth gwrs. Cofio'r gweinidog cydwybodol – yr un oedd yn ymwelydd cyson â'r cleifion ac yn cysuro'r trallodus gan gerdded (yn llythrennol felly weithiau) yr ail filltir? Heb amheuaeth, ie. Cofio'r gŵr oedd â diddordeb ysol yn y plant a'r ifanc a'u cael i wneud pob math o weithgareddau? Ia, eto.

Medrwn gofio mwy. Ond i mi, Gareth y gŵr hawdd siarad ag o ar bob pwnc posib – o ddiwinyddiaeth, gwleidyddiaeth, llenyddiaeth a cherddoriaeth i injan ceir! A Gareth y medrai pobl fynd ato ag arllwys eu problemau iddo ac yntau'n gwrando a chydymdeimlo, ac yn cynghori'n gynnil garedig. Gareth y ffrind mynwesol.

### Oedfa arbennig

Yn y gwasanaeth o ddiolch yng nghapel Seilo, Llandudno ar 31 Gorffennaf cafwyd teyrngedau oedd yn olrhain ei gefndir teuluol yn Nyffryn Conwy – yn Eglwysbach a Chyffordd Llandudno; ei yrfa weinidogaethol ddiddorol, a'i gyfeillgarwch.

Wedi'i godi i'r weinidogaeth o eglwys Caersalem, Cyffordd Llandudno; graddio yn y Gymraeg ym Mangor ac yna mewn Diwinyddiaeth yn Abertawe, fe'i hordeiniwyd yn 1970 a'i sefydlu'n weinidog gydag Eglwys Bresbyteraidd Cymru ym Mhontardawe a'r cylch gan aros yno hyd 1976. Yna daeth i eglwys y Tabernacl, Porthmadog ac Ebeneser, Borth-y-gest, a threuliodd chwe blynedd yno hyd 1982 cyn symud i eglwysi Bethesda, Yr Wyddgrug a Soar, Nercwys a threulio yno ddwy flynedd ar bymtheg hyd 1999 cyn cymryd y cam – annisgwyl i rai – o fod yn Ysgrifennydd Cyffredinol Eglwys Bresbyteraidd Cymru a symud i Gaerdydd. Ond ymhen cwta dair blynedd daeth yn ôl i Borthmadog yn 2002 i weinidogaethu ar eglwys Capel y Porth (cyfuniad o rai eglwysi Presbyteraidd wedi uno erbyn hynny); Ebeneser, Borth-y-gest a Jerusalem, Garndolbenmaen, gan ychwanegu Peniel, Tremadog a Bethel, Golan yn ddiweddarach.

### Capel Coffa

Ond yn 2010 oherwydd gorfodaeth ar i weinidogion y Presbyteriaid ar y pryd ymddeol yn 67 mlwydd oed, a Gareth a Margaret am symud yn ôl i'w hen ardal ar arfordir Aberconwy, digwyddodd yr annisgwyl. Daeth galwad iddo i weinidogaethu ar Eglwys Annibynnol y Capel Coffa yng Nghyffordd Llandudno – capel sydd wedi'i leoli o fewn tafliad carreg i Gaersalem, yr eglwys a'i cododd i'r weinidogaeth! Gwn, oherwydd cysylltiadau personol â'r Capel Coffa, i Gareth weinidogaethu gyda'i egni arferol eto ar yr eglwys hon gan dreulio tair blynedd ar ddeg bendithiol iawn yno cyn ymddeol yn llwyr yn 2023. Bu cyn hyn yn Llywydd Cymanfa Gyffredinol y Presbyteriaid ac yn Llywydd Sasiwn y Gogledd, bu hefyd yn Llywydd Cyfundeb Annibynwyr Gogledd Arfon, gan wneud y gwaith gyda'r un urddas a hyfrydwch personoliaeth ynghyd â dogn da o hiwmor. Ym mhob ardal y bu iddo weinidogaethu, paratoai'n fanwl ar gyfer pob gorchwyl a phregethai'r Gair gyda didwylledd ac argyhoeddiad.

### Cydweithio

Os ca' i daro nodyn personol – bu i'r ddau ohonom gydweithio'n ardderchog yng nghylch Porthmadog rhwng 2002 a 2010, a gallem ymddiried yn ein gilydd ar bob achlysur, a gofid oedd gweld y dirywiad yn ei iechyd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf Ond, 'Nid ofnaf ddim, ei law a'm tywys i' oedd ei brofiad yntau fel un John Roberts.

I ddod yn ôl at ddydd ei angladd ar 31 Gorffennaf, cynhaliwyd gwasanaeth cwbl breifat yn amlosgfa Bae Colwyn o dan arweiniad y Parchedig Eric Jones, Bangor a'r Parchedig Helen Wyn Jones, Bae Colwyn cyn cynnal gwasanaeth cyhoeddus o ddiolch am ei fywyd yng nghapel helaeth Seilo, Llandudno, eto o dan arweiniad y Parchedig Eric Jones. Darllenwyd o'r Ysgrythur gan y Parchedig Christopher Prew, Porthmadog ac arweiniwyd mewn gweddi gan y Parchedig Iwan Llewelyn Jones, a chafwyd teyrngedau cofiadwy gan Meurig Edwards, brawd Gareth, ynghyd â'r Parchedigion Trefor Lewis, Bae Colwyn a Desmond Davies, Caerfyrddin. Hywel Gwyn Jones oedd wrth yr organ.

Diolchwn i Dduw am fywyd a gweinidogaeth Gareth, ac estynnwn ein cydymdeimlad dyfnaf â Margaret, ei briod; Alun a Gwenith, ei blant a'u teuluoedd, a Meurig, Bryn, Arwel a Nia, ei frodyr a'i chwaer.

**Iwan Llewelyn Jones**

## Cofion

Anfonwn ein cofion cynhesaf at y Parchedigion Glenys Jones ac Ioan Wyn Gruffydd, Pwllheli sydd ar y funud yn Ysbyty Bryn Beryl ger Pwllheli. Y mae Glenys yn weinidog ar Eglwys Penlan, Pwllheli a Soar, Nefyn a bu Ioan yn gweinidogaethu mewn amryw o ardaloedd yn Ne a Gogledd Cymru gan gynnwys gweithredu fel Ysgrifennydd Cenhadol yr Undeb rhwng 1984 a 2000.

Dymunwn fendith Duw yn helaeth arnynt, gan gofio amdanynt yn ein gweddiau.

## Eglwysi Annibynnol Bethesda, Tymbl Capel Seion, Drefach a Nazareth, Pontiets

Cynhelir cyfarfod sefydlu

**Parchg Guto Llywelyn**

**yn weinidog i Iesu Grist**
ar yr eglwysi uchod

ar ddydd Sadwrn, 13 Medi, 2025
am 1.30yp

**yng nghapel Capel Seion (SA14 7BN)**

Estynnir croeso cynnes i bawb
Darperir lluniaeth

Ar ran yr eglwysi:

Elen Davies, Mwynfan, Heol Meri, Drefach. (01269) 845 677

Ann Thomas, Y Berllan, Drefach (01269) 841 362

Delyth Bowen, 7 Heol Nazareth, Pontiets. (01269) 860 430

## Golygyddol

# LLE NAD YW'N DDIOGEL BOD YN GRISTION

Tra bod llygaid y byd yn edrych (heb wneud dim mwy) ar y lladdfa erchyll yn Gaza, mae llai o sôn am yr ymosodiadau gan wladychwyr Iddewig arfog ar gymunedau yn y Llain Orllewinol. Dyma oedd Jwdea a Samaria'r Beibl, gwlad y Palestiniaid fuodd o dan reolaeth anghyfreithlon Israel ers 1967; darn o dir rhwng Jerwsalem a'r Iorddonen, sydd tua'r un faint a Phowys. Yma mae'r pentref olaf ble mae Palestiniaid Cristnogol yn byw. Enw'r pentref yw Taybeh, ond ei enw Beiblaidd oedd Effraim. Yn ôl Efengyl Ioan, dyma'r pentref y ciliodd Iesu a'i ddisgyblion iddo ar ôl iddo gyfodi Lasarus, a chlywed bod Caiaffas a'r Sanhedrin Iddewig yn cynllwynio i'w ladd. 'Am hynny, peidiodd Iesu mwyach â mynd oddi amgylch yn agored ymhlith yr Iddewon. Aeth i ffwrdd oddi yno i'r wlad sydd yn ymyl yr anialwch, i dref a elwir Effraim, ac arhosodd yno gyda'i ddisgyblion.' (Ioan 11: 54)

### Casineb at Gristnogion

Mae'r gwladychwyr Iddewig yn hawlio ardal Effraim ar sail yr hanes ysgrythurol am goncwest Josua dros 3,000 o flynyddoedd yn ôl. Mae tystiolaeth archeolegol yn dangos na ddigwyddodd hynny, ac yn awgrymu mae Canaaneaid a drodd at Dduw'r Iddewon oedd y bobl oedd yn byw yno bryd hynny. Wedyn, fe wnaeth eu disgynyddion gofleidio Iesu o Nasareth fel eu Duw. Ond nawr mae'r gwladychwyr, trwy drais, am hawlio'r lle. Cafodd tân ei gynnau yn agos i safle eglwys San Siôr, sy'n dyddio o'r 5ed ganrif, ac mae ceir rhai o'r trigolion wedi cael eu llosgi mewn ymosodiadau gan eithafwyr Iddewig.

Dros y ganrif ddiwethaf mae canran y Cristnogion yn y Dwyrain Canol wedi syrthio o 20% o'r boblogaeth i 4%, ac mewn perygl o ddiflannu'n gyfan gwbl, yn bennaf oherwydd erledigaeth gyson gan wladwriaethau a charfannau Islamaidd. Cafodd eglwysi hynafol eu dinistrio gan ISIS yn Irac, bu ymateb treisgar i wrthdystwyr Cristnogol yn yr Aifft, a charcharu'r rhai a drodd at Gristnogaeth yn Iran. Deufis yn ôl, fe wnaeth hunanfomiwr ISIL ffrwydro bom yn eglwys St Elias yn Namascus gan ladd 25 o ddynion, menywod a phlant ac anafu 60 arall. Ond prin fod y fath ymosodiadau ar Gristnogion yn hawlio sylw yn y wasg.

### Maint yr erlid

Chwe blynedd yn ôl, fe wnaeth y cyn Ysgrifennydd Tramor Jeremy Hunt gomisiynu adroddiad gan banel a gadeiriwyd gan y Gwir Parchedig Philip Mounstephen, Esgob Truro, i grynhoi maint yr erlid ar Gristnogion, ac i wneud argymhellion. Mae'r rhagair yn datgan bod Cristnogaeth o'r dechrau'n deg wedi dioddef erledigaeth am ei fod yn herio'r rhai oedd â phŵer absoliwt – sy'n dal i fod yn wir heddiw mewn sawl gwlad. Ym Mhacistan ac Indonesia, yng Ngogledd Corea a Tsieina, Colombia ac India, Swdan, Nigeria, Malaysia a 50 o wledydd eraill mae cyfanswm o tua 380 miliwn o Gristnogion yn dioddef erledigaeth sy'n amrywio o wahardd addoli i arteithio a lladd. Ledled y byd, cafodd bron i 4,500 eu llofruddio'r llynedd, a gyrrwyd dros 200,000 o'u cartrefi. Ac nid mewn gwledydd sydd o dan unbennaeth neu reolaeth grefyddol lym yn unig mae hawliau dynol Cristnogion yn cael eu gwahardd. Er enghraifft, ar ynysoedd paradwysaidd y Maldives, sy'n gyrchfan poblogaidd i ymwelwyr, does dim hawl cynnal cyrddau Cristnogol – hyd yn oed yn y cartref.

### Cydwybod Gristnogol yn dallu'r erlid

Fe wnaed 22 o argymhellion yn Adroddiad Truro. Ond daeth dim ohono. Pam hynny tybed? Fel Cristnogion rydym yn boenus o ymwybodol o'r erlid a'r cam mawr wnaethom ni i bobl yn y gorffennol, nid yn unig trwy'r Croesgadau ganrifoedd yn ôl, ond hefyd yn fwy diweddar trwy goloneiddio gwledydd a gorfodi ein crefydd a'r iaith Saesneg arnynt. Cafodd Cristnogaeth ei gweld fel symbol o goloneiddio gan wledydd Ewrop, ac yn fwy na dim efallai, gan yr Ymerodraeth Brydeinig. Byddai'r fyddin yn cyrraedd, yna'r masnachwyr, ac wedyn y cenhadon. Fel meddai'r Archesgob Tutu: 'When the missionaries came to Africa they had the Bible and we had the land. They said, "Let us pray." We closed our eyes. When we opened them, we had the Bible and they had the land.'

Mae'r canfyddiad hwn am rôl crefydd mewn coloneiddio yn gwneud y dioddefaint Cristnogion cyfoes yn haws i'w anwybyddu. Mae gwledydd y Gorllewin sy'n gweld y byd trwy brism yr hanes diwylliannol lle mae Cristnogaeth yn gyfrifol am ddrygioni hanesyddol yn barod i droi llygad ddall i erledigaeth heddiw. Rhaid i ni beidio â syrthio i'r trap yna. Mae angen ein gweddïau a'n cefnogaeth ar y cannoedd o filiynau o'n cyd Gristnogion sy'n cael eu herlid am gofleidio Efengyl Iesu Grist. Yn eu plith mae'r gymuned Gristnogol fach yn Effraim, i'r lle yr aeth y Gwaredwr ei hun i ddianc am ysbaid rhag erledigaeth arweinwyr crefyddol Iddewig ei ddydd ar y ddaear hon.

**Alun Lenny**






Cynhelir

**Oedfa Gomisiwn**

Ysgrifennydd Cyffredinol newydd
Undeb yr Annibynwyr Cymraeg

**Elinor Wyn Reynolds**

nos Fercher 24 Medi am 7pm
yng nghapel y Priordy, Caerfyrddin

Mae croeso cynnes iawn i bawb.
Dewch i ddymuno'n dda ac i fwynhau cwmnïaeth.
Bydd lluniaeth i ddilyn yn y festri.

*Caiff yr oedfa ei ffrydio'n fyw ar wefan annibynwyr.cymru*

*Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:*
**Y Parchg Ddr Alun Tudur**
**39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan,**
**Caerdydd, CF23 9BS**
***Ffôn:* 02920 490582**
***E-bost:* tyst@annibynwyr.cymru**

*Golygyddion*

Y Parchg Iwan Llewelyn Jones
Fronheulog, 12 Tan-y-Foel,
Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd,
LL49 9UE
*Ffôn:* 01766 513138
*E-bost:* IwanLlew@aol.com

Alun Lenny
Porth Angel, 26 Teras Picton
Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX
*Ffôn:* 01267 232577 /
0781 751 9039
*E-bost:* alunlenny@hotmail.co.uk

*Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:*
**Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc**
**Busnes Glanyrafon, Bro Abertawe**
**ABERTAWE SA7 0AJ**
***Ffôn:* 01792 795888**
***E-bost:* undeb@annibynwyr.cymru**

***Dalier Sylw!***
**Cyhoeddir yr Adran Gydenwadol gan Bwyllgor Llywio'r Adran Gydenwadol ac nid gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a wnelo Golygyddion *Y Tyst* ddim â chynnwys yr Adran Gydenwadol.**

# PERERINDOD I BENTREF COLL – A CHOFIO WALDO



Ar ddydd Iau prifwyl Wrecsam roeddwn i (Philistiad fel ydwyf!) 150 o filltiroedd o'r Maes yn nyfnder de Sir Penfro. Bob blwyddyn, byddaf yn mynd â'r Golf i garej Volkswagen ger Aberdaugleddau i gael gwasanaeth. Gan ei fod yn chwe blwydd oed erbyn hyn ac angen oriau o sylw, cefais fenthyg *courtesy car* a threulio ddiwrnod hyfryd yn teithio o gwmpas yr ardal, gan fynd ar bererindod i eglwys Rhoscrowdder ger pentre Angle. Peth anghyffredin yw gweld enwau Cymraeg yng ngwaelod eithaf de Penfro Seisnig ei hiaith. Yn ôl B. G. Charles (*The Place Names of Pembrokeshire*) mae'r enw'n tarddu o'r elfennau 'rhos' a 'crythwr' sef person oedd yn chwarae'r hen offeryn Cymreig, y crwth. Enw Cymraeg arall gerllaw yw Pwllcrochan, sy'n tystio i barhad yr iaith am ganrifoedd ar ôl i'r Brenin Harri'r Ail hel y Cymry o dde Penfro a'i wladychu gan Ffleminiaid.

### Eglwys hynafol

Mae eglwys hynafol fawr yn Rhoscrowdder, sy'n llythrennol yng nghysgod purfa olew Valero – un o'r mwyaf yn Ewrop (*gwelir tŵr uchel yr eglwys yn codi o'r coed ar y chwith yn y llun*). Cysegrwyd yr eglwys i Sant Degman, y credir iddo gael ei eni yn yr ardal, cyn symud i Watchet yng Ngwlad yr Haf, lle cafodd ei ferthyru tua'r flwyddyn 700. Mae rhannau o'r adeilad Gradd I yn 800 mlwydd oed. Ar un adeg roedd o dan ofal abad, ac yn un o saith o eglwysi pwysicaf Dyfed.




### Ffrwydrad dinistriol

Ar bnawn Sul heulog 24 Gorffennaf 1994, pan oedd y burfa yn eiddo i Texaco, digwyddodd ffrwydrad anferth yno, a thân mawr ar ôl hynny. Roedd y ffrwydrad mor bwerus fel y chwalwyd yn yfflon sawl ffenestr siop yn nhre Aberdaugleddau ar draws yr aber. Cafodd yr ergyd ei chlywed gan bobl cyn belled â 40 milltir i ffwrdd yng Nghaerfyrddin, oedd yn tybio mai taran ydoedd. Cofiaf y digwyddiad yn iawn, oherwydd bues i a David Owen, dyn camera o Lanfallteg, yn mentro'n bywydau yn ffilmio darn yn fyw i *Newyddion* S4C tua chanllath o flaen y tân, ar ôl cael ein rhybuddio y gallai ail ffrwydrad ddigwydd unrhyw funud. Fuodd yna ddim, diolch i'r drefn! Am mai pnawn Sul ydoedd, bach iawn o staff oedd yn y burfa, ac er i nifer gael eu hanafu, chafodd neb ei ladd. Un o uwch-reolwyr y burfa bryd hynny oedd Simon Moffett, sydd gyda'i wraig Mererid wedi bod yn ffyddlon dros ben i Gyfundeb Sir Benfro ac Undeb yr Annibynwyr ers blynyddoedd.

### Diwedd Rhoscrowdder

Yn dilyn y ffrwydrad, fe wnaeth Texaco gynnig prynu pob cartref yn Rhoscrowdder. Ar ôl i bron pawb gytuno, cafodd y tai gwag eu dymchwel. Diflannodd pentre Rhoscrowdder bron mor gyfan gwbl â Thryweryn. Yn o fuan wedyn, fe wnaeth yr eglwys gau, yn rhannol am fod y ffrwydrad wedi gwneud difrod i'r to, ond hefyd am nad oedd bron neb ar ôl i addoli yno. Mae'r eglwys nawr o dan ofal y Friends of Friendless Churches ac yn fan heddychol iawn, er mai heddwch angau achos Cristnogol ydyw. Wedi'r holl ganrifoedd hir, daw neb yno bellach i fwyta'r bara ac yfed y gwin mewn ufudd-dod i'r Un a ddywedodd, 'Gwnewch hyn er cof amdanaf.'




### Cofio mewn cae erfin

Ond mae un person ac achlysur nodedig iawn yn cael eu cofio yn Rhoscrowdder. Tu allan i'r hen ysgoldy, ger un o fynedfeydd y fynwent, mae plac i gofio'r Cristion, yr heddychwr a'r bardd mawr Waldo Williams.

Tueddwn i feddwl am Waldo fel un o feirdd ardal y Preselau yng ngogledd y sir, a rhwng y mynyddoedd ger pentref Mynachlog-ddu mae'r garreg fawr sy'n gofeb iddo fe. Pam felly fod plac i'w gofio yn Rhoscrowdder, yn ardal Seisnig de Penfro? Wel, ym 1931 roedd Waldo ar fferm leol Hoplas yn helpu ei ffrind mawr a chyd-heddychwr Willie Jenkins i dorri erfin. Wrth wylio'r haul yn machlud i gyfeiriad aber afonydd Cleddau, fe gyfansoddodd bennill cyntaf y gerdd 'Cofio' yn ei feddwl, a'r pum pennill arall ar ôl swper.

Un funud fach cyn elo'r haul o'r wybren
Un funud fwyn cyn delo'r hwyr i'w hynt,
i gofio am y pethau anghofiedig
Ar goll yn awr yn llwch yr amser gynt.

Cafodd y plac i nodi'r cyswllt ei gomisiynu gan Gymdeithas Waldo Williams, a'i ddadorchuddio yn 2016 gan gyn brif weinidog Cymru, y diweddar Rhodri Morgan, a'i frawd Prys. Os ydych yn byw yn y gorllewin, neu'n dod i Eisteddfod y Garreg Las yn Sir Benfro'r flwyddyn nesa, beth am fynd am dro lawr i ardal Rhoscrowdder? Dilynwch y ffordd o dref Penfro i gyfeiriad penrhyn Angle. Cyn troi at yr eglwys byddwch yn pasio twmpathau claddu hynafol 'cenedlaethau dirifedi daear' ar y chwith, ac ar y dde, rhyngoch a'r burfa olew anferth, mae caeau cochion fferm Hoplas lle cafodd Waldo'r ysbrydoliaeth i gyfansoddi un o gerddi mawr ein cenedl.

**Alun Lenny**

*Cyhoeddwyd gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg ac argraffwyd gan Serol Print, Uned 13, Ystad Ddiwyd. Heol Milland, Castell-nedd, SA11 1NJ. Cofrestrwyd yn y Swyddfa Bost.*